Image not found or type unknown

# Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 March 2025

Diweddariad olaf: 27 March 2025

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/social-care-wales-workforce-development-programme-scwwdp am y fersiwn diweddaraf.

Yma ceir manylion am Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP).

## Beth yw'r grant SCWWDP?

Dangos

Mae Grant Datblygu’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) yn raglen grant sydd wedi’i hen sefydlu i gefnogi hyfforddiant a datblygu’r gweithlu ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae’r grant blynyddol gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda awdurdodau lleol yn darparu arian cyfatebol, yn cael ei ddosbarthu’n rhanbarthol ac yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gefnogi hyfforddiant a gweithgarwch datblygu’r gweithlu yn eu sefydliadau eu hunain ac ar gyfer darparwyr yn y sector annibynnol a gwirfoddol.

Mae SCWWDP hefyd yn cynnwys y Grant Hwyluso Rhanbarthol. Nid oes angen i awdurdodau lleol ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y cyllid hwn ond rhaid ei ddefnyddio ar flaenoriaethau penodol.

## Sut mae'r grant yn cael ei reoli?

Dangos

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gweinyddu ac yn rheoli'r grant. Rydyn ni'n cyhoeddi gofynion y grant i ranbarthau bob blwyddyn drwy'r 'cylchlythyr grant'. Mae’r cylchlythyr grant wedi’i gymeradwyo gan ein Bwrdd, ac mae’n cynnwys gwybodaeth am:

- swm y grant
- yr hyn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn honno
- sut i wneud cais am yr arian

- sut y dylid rheoli'r grant
- beth yw ein disgwyliadau ar gyfer adrodd a monitro.

Fel rhan o'n gofynion ar gyfer derbyn grant SCWWDP, mae'n rhaid i ranbarthau adrodd ar sut mae nhw wedi buddsoddi cronfeydd y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys yr arian yr ydyn ni wedi'i ddosbarthu a'r 30 y cant o arian cyfatebol a gyfrannwyd gan bob awdurdod lleol. Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r adroddiad themâu a chanfyddiadau cenedlaethol bob blwyddyn.

Mae pob rhanbarth yn cael ei archwilio bob blwyddyn gan Archwilio Cymru i wneud yn siŵr bod yr holl arian cyhoeddus a fuddsoddir yn SCWWDP yn cael ei gyfrif.

## Faint o gyllid a ddarperir?

Dangos

Yn amodol ar gadarnhad cyllid, mae grant SCWWDP a weinyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru tua £7.6 miliwn bob blwyddyn.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen, yr un fath â 30 y cant o'r cyllid a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd tua £3.3 miliwn bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn gwario mwy na'r 30 y cant o arian cyfatebol.

Yn gyffredinol, mae'r cyfanswm gwariant ar SCWWDP tua £10.9 miliwn bob blwyddyn.

## Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y grant?

Dangos

Mae blaenoriaethau grant SCWWDP yn cyd-fynd â themâu dethol Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fe

wnaethom ni ddatblygu a chyhoeddi strategaeth y gweithlu ar y cyd gyda Addysg a Gwella Iechyd Cymru ym mis Hydref 2020.

Ni all SCWWDP ariannu holl uchelgais y strategaeth gweithlu yn llawn, ac i wneud yn siwr bod y cyllid presennol yn cael ei ddefnyddio’n gymesur, mae’r grant yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol ar gyfer datblygu’r gweithlu:

- Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol
- Addysg a dysg rhagorol
- Arweinyddiaeth ac olyniaeth
- Cyflenwad a siâp y gweithlu
- Darparu hyfforddiant gwaith cymdeithasol cymhwyso ac ôl-gymhwyso (Dyma un o flaenoriaethau’r cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol)

Dim ond ar gyfer y blaenoriaethau yma y gellir defnyddio elfen y Grant Hwyluso Rhanbarthol o’r SCWWDP:

- cefnogi ymgysylltu ar draws y sector o fewn y rhanbarthau
- cyfrannu at gyflawni'r fforymau rheolwyr cofrestredig yn y rhanbarthau
- cyfrannu at y swyddogaeth cysylltydd gyrfa gofal rhanbarthol i gefnogi ymgyrchoedd denu, recriwtio a chadw sy’n cyd-fynd â rhaglen waith Gofalwn Cymru
- cyfrannu at y cynnydd yn nifer y myfyrwyr gwaith cymdeithasol noddedig a gynhelir gan bob awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau o fonitro diwedd blwyddyn y Rhaglen datblygu’r Gweithlu Gofal

## Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) 2023 i 2024

## Gallwch ddarllen ein adroddiad themâu a chanfyddiadau SCWWDP yma

Mae’r adroddiad themâu a chanfyddiadau cenedlaethol yn nodi sut y buddsoddwyd grant SCWWDP gan ranbarthau rhwng 2023 a 2024.

### Beth yw datblygiadau’r dyfodol ar gyfer Rhaglen Datblygu’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)?

Dangos

Yn 2025 i 2026 byddwn yn gweithio ar y canlynol gyda’n partneriaid:

- adeiladu darlun llawnach o ddatblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru
- monitro'r risg o fuddsoddiad uwch mewn gwaith cymdeithasol
- cryfhau canllawiau grant
- sicrhau bod y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant a phresenoldeb yn adlewyrchu proffil y sector
- mesur effaith.

## Cael mynediad at yr hyfforddiant a datblygiad a ariennir gan SCWWDP

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael mynediad i'r hyfforddiant a datblygiad a ariennir gan SCWWDP, cysylltwch â'ch tîm datblygu gweithlu lleol